Y DINESYDD

Mehefin 2019 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 438 £1


## Bwrlwm y Bae

## Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019














# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Miranda Morton**

***Golygydd Gorffennaf / Awst***
***Wyn Mears***

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin i:
wyn@wynmears.com
13 Mayfair Drive, Thornhill,
Caerdydd, CF14 9EN
029 20758726 / 07837 991189

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24, Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg, Castell-nedd
Cysodydd: Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Llywyddion Anrhydeddus



***Llun: Garry Owen***

Llongyfarchiadau calonog i lywyddion anrhydeddus Eisteddfod yr Urdd eleni - Gwilym Roberts, Emyr Edwards, Gaynor Jones ac Alun Guy. Mae'r pedwar yn llawn haeddu'r anrhydedd am oes o wasanaeth i'r Urdd a'r diwylliant Cymraeg.

## Gruffudd Eifion Owen
## Bardd Plant Cymru



Yn Eisteddfod yr Urdd eleni cyhoeddwyd mai Gruffudd Eifion Owen fydd Bardd Plant Cymru am y ddwy flynedd nesaf. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ennill yr anrhydedd hon.

Brodor o Bwllheli yw Gruffudd Eifion ond y mae wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers tro gyda'i wraig Gwennan a'i fab Dyfed Arthur.

Pan ymwelodd Eisteddfod yr Urdd â'r Bae ddegawd yn ôl, ef oedd enillydd Y Fedal Ddrama. A phan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â'r Bae y llynedd ef oedd enillydd y Gadair gydag awdl ar y testun 'Porth'. Mae'n amlwg bod erwau'r brifddinas yn faes toreithiog iddo fel llenor a bardd.

Bu cadw'r gyfrinach am ei apwyntiad fel Bardd Plant Cymru yn dipyn o her iddo.

Yn 2015 fe gyhoeddodd ei gasgliad cyntaf o farddoniaeth, *Hel Llus yn y Glaw,* ac fe gyrhaeddodd y gyfrol hon restr fer categori barddoniaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2016.

O ystyried hyn, ac o gofio ei fod yn un o diwtoriaid Ysgol Farddol Caerdydd ac yn aelod o dîm talwrn Y Ffoaduriaid, mae'n siwr y bydd plant bach Cymru yn cynghaneddu o fewn dim amser.

Un o'i ddiddordebau yw jyglo, ac mae'n sicr y bydd gan blant Cymru awydd i ddysgu'r grefft hon yn ogystal â barddoni.

Pob hwyl iddo yn y swydd arbennig hon.

# Clwb Rygbi Ieuenctid Cwins Cymraeg (CRICC) Caerdydd

**Y Tymor Rygbi yn dod i ben ar Faes Diamond**

Yn anffodus bydd tîm cyntaf dynion y Cwins yn syrthio i'r trydydd gynghrair y tymor nesaf ond mae llawer o ddathlu llwyddiant hefyd. Cynhaliwyd diwrnod gwobrwyo CRICC Caerdydd ar 19 Mai. Trefnwyd gwobrwyo'r garfan Dan16 yn gynharach gan fod arholiadau allanol i'w sefyll. Roedd carfan Dan 12 CRICC yn absennol hefyd am eu bod yn chwarae gêm derfynol Cwpan y Gleision yn erbyn Pontyclun ar Faes y Cardiff Arms.

| | *Chwaraewr y Flwyddyn* | *Tlws yr Hyfforddwyr* |
|---|---|---|
| < 7 | Jac Witchell | Harri Rummings |
| < 8 | Jack Thomas | Llŷr Morgan |
| < 9 | Daniel John | Gethin Griffith |
| < 10 | Owen Howard | Edward (Ted) Godfrey |
| < 11 | Thomas Howe | Gruffydd I Davies |
| < 12 | Ryan Watts | Evan Hiscocks |
| < 13 | Michael Davies | Rhys Gilligan |
| < 14 | Osian Roberts | Matthew Young |
| < 15 | Harri Metcalfe | Joshua Stewart |
| < 16 | Tirion Bowen | Iwan Fells |

Chwaraewr y Clwb: Iwan Johnes (Dan 16)



Jack Thomas,
chwaraewr y flwyddyn <8



*Carfan dan 6 oed CRICC*



*Enillwyr Cwpan URC - Merched dan 18*

## Siopau sy'n gwerthu'r Dinesydd

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP BODLON**, Yr Hen Lyfrgell, Yr Ais
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina

# Ysgol Sant Baruc

Mae llawer o gystadlu brwd wedi bod yn digwydd yn Ysgol Gymraeg Sant Baruc dros y misoedd diwethaf. Cafwyd llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd eleni gyda disgyblion Ysgol Sant Baruc yn ennill y cyfle arbennig i berfformio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd a'r Fro dros hanner tymor y Sulgwyn.

Daeth llwyddiant i fand roc yr ysgol 'Y Dagrau Tân' wrth iddynt sicrhau lle i berfformio eu cân newydd *Dal dy Dir* ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac ar lwyfan Gŵyl Fach y Fro.

Dymunwn bob lwc i'r tîm dawns greadigol sy'n cyfleu dawns ar y thema 'castell'; yr ensemble offerynnol gyda'u trefniant nhw o'r gân *Men of Harlech* gyda gitarau a drwm; i Elian Davies yn yr unawd gitâr a Morgan Beasley yn yr unawd drymiau.

I gloi ar yr holl gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, fe fydd disgyblion yn perfformio sgript *Bai ar gam* yn y gystadleuaeth cyflwyniad dramatig ar brif lwyfan Canolfan y Mileniwm.

Nid oes atal ar y llwyddiant fodd bynnag. Fe fydd yr ysgol yn cynrychioli ysgolion Bro Morgannwg yn y rownd genedlaethol o'r Bookslam eleni. Ysgol Sant Baruc oedd pencampwyr y Bookslam eleni felly cawn weld os daw llwyddiant eto! Yn ogystal fe fydd tîm blwyddyn 6 yn mynd i rownd genedlaethol y Cwis Llyfrau. Dyma fydd y pumed flwyddyn yn olynol i'r ysgol gyrraedd y rownd derfynol a chynrychioli ysgolion Bro Morgannwg.

Dymunwn bob hwyl i'r disgyblion a'u hathrawon yn eu hymdrechion.



*Y Dagrau Tân*



*Yr ensembl offerynnol*



*Cyflwyniad Bookslam*



*Tîm dawns greadigol*

# Ysgol Y Wern

***Pencampwyr Prydain***

Gyda balchder fe allwn gyhoeddi bod tîm gymnasteg Ysgol y Wern wedi ennill Pencampwriaeth Prydain Fawr yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Ysgolion Prydain. Fe lwyddodd y tîm i gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i dimau ar y llawr a'r llofnaid - tipyn o gamp! Yn ogystal â hyn fe ddaeth yr ysgol yn ail yn y gystadleuaeth Parau Acrobatig i Fechgyn ac yn drydydd yn y categori unigol i fechgyn dan 11. Dyma'r tro cyntaf i ysgol o Gymru ennill y fath wobrau mewn ugain mlynedd, ac, yn nodedig, y tro cyntaf i ysgol cyfrwng Cymraeg gael ei choroni'n Bencampwyr Prydain! Rydym yn hynod falch o'n disgyblion!





***Uchod:***
***Mason ac Owain***

***Ar y chwith:***
***y tïm gymnasteg***

# Ysgol Pen y Garth

***Siarter Iaith***

Bu criw Siarter Iaith Ysgol Pen y Garth yn brysur yn croesawu ein ffrindiau newydd o ysgolion yn Ynys Manaw ym mis Mai. Daeth athrawon o ysgolion yr ynys i weld arfer dda'r ysgol a'r defnydd o'r Gymraeg. Bwriad yr ymweliad oedd rhannu ein syniadau ar gyfer ehangu'r Gymraeg o'r ysgol i'r gymuned. Gobeithiwn y bydd hyn yn eu cynorthwyo i gynyddu'r nifer sy'n siarad Manaweg, sef yr iaith leiafrifol ar yr ynys.

***Pencampwyr Rygbi***

Llongyfarchiadau i'r criw rygbi a enillodd bencampwriaeth twrnamaint St Joseph. Llongyfarchiadau i John o flwyddyn 6 a enillodd chwaraewr y twrnamaint. Da iawn hefyd i'r criw pêl rwyd am gystadlu ym mhencampwriaeth St Joseph.



## Y Cyfryngau Cymdeithasol

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd, ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Sôn am gnoi ewinedd!

Roedd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd wedi chwarae bron i ddwy gêm ar hugain o rygbi ers dechrau mis Medi - ac Alun Evans wedi sgorio 11 cais mewn pum gêm erbyn diwedd y tymor - ond roedd ein tynged yn dal i fod yn y fantol hyd at bum munud ola'r gêm ola. Wedi colli'r ddwy gêm flaenorol, byddai dim byd llai na buddugoliaeth, a hynny gyda phwynt bonws, yn golygu y byddai'r Clwb yn syrthio 'nôl i Adran 3(B).

Cafwyd dechrau campus yn erbyn Pendyrys. Sicrhawyd meddiant cynnar, ac o fewn dwy funud roedd blaenwyr y Clwb wedi croesi am gais. Ond Pendyrys gafodd y gorau am weddill yr hanner; erbyn yr egwyl roedden nhw ar y blaen o 21-12.

Wrth i'r ail hanner ddechrau, y Clwb sgoriodd – nid unwaith, ond dwywaith, gyda'r ail gais yn mynd â ni ar y blaen, ac hefyd yn sicrhau'r pwynt bonws hanfodol hwnnw. Ond brwydro 'nôl wnaeth Pendyrys, a chyda'r chwiban ola'n agosáu, roedd y sgôr yn 26-26, a'n cefnogwyr ar bigau'r drain. Enillodd y Clwb gic cosb ac fe'i troswyd. Yna daeth pum munud o amddiffyn arwrol gan y pymtheg ar y cae i ddal gafael ar y fantais fregus. Wrth i'r dyfarnwr chwibanu ar ddiwedd y gêm, roedden ni'n fuddugol o 29-26 – ac roedd tymor arall yn Adran 3(A) wedi'i sicrhau.

Ym mis Medi, am y tro cyntaf ers degawd, bydd tîm hyfforddi newydd wrth y llyw gan fod Gareth Williams yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Prif Hyfforddwr. Mae cyfraniad ac ymrwymiad Gareth i'r Clwb wedi bod yn anferthol, a byddwn yn gweld ei eisiau wrth ochr y cae. Diolch, Gareth.



*Cais arall ar y ffordd i Alun Evans*


Maplebrook Wills®



- Ewyllysiau
- Ymddiriedolaethau
- Atwrneiaeth Arhosol
- Cynlluniau angladd a ragdalwyd

Ffioedd sefydlog ac ymweliadau cartref am ddim

Cysylltwch â Deri Ap Hywel 02921 790 991

deri.aphywel@maplebrookwills.co.uk

# Gwylio'r Geiniog

*"Sylwer nad yw pâr di-briod yn gallu trosglwyddo lwfans i'w cymar."*

## Huw Roberts



Bu cynnydd ym morgeisi *equity release* i unigolion dros 55. Mewn rhai amgylchiadau gall hyn fod yn effeithiol ond dylid ystyried y ffigyrau yn fanwl gan y bydd llai o ryddid gennych yn y blynyddoedd i ddod ac mae'r llog yn gallu cynyddu yn sylweddol.

*Dyletswyddau Profiant/Ysgutor*

Mae'r rhain yn eang ac yn cynnwys cwblhau ffurflenni Profiant a Threth Etifeddiaeth, cysylltu â sefydliadau ariannol i ryddhau asedion, gwerthu eiddo a chysylltu gyda chyfreithwyr, gwerthwyr tai ayb a thalu allan yr asedion yn ôl yr ewyllys.

*Os oes gennych gwestiwn cyffredinol am y golofn anfonwch e-bost at huwrobertsaccountant@gmail.com neu drwy www.huwrobertsaccountant.cymru neu ffoniwch 029 2069 4524.*

***Gofynnwch i Huw***

*Yr ydym yn bâr priod cyfforddus. Faint allwn ni adael i'n plant/wyrion cyn talu treth etifeddiaeth?*

£325,000 yw lwfans unigolyn, £650,000 i bâr priod. Ar ben hyn mae lwfans newydd y *Residence Nil Rate Band* o £150,000 yr un, £300,000 y cwpwl os ydych yn gadael eich cartref i'ch plant/wyrion, felly uchafswm o £950,000 cyn talu treth etifeddiaeth.

Sylwer nad yw pâr di-briod yn gallu trosglwyddo lwfans i'w cymar, a bod y *Residence Nil Rate Band* i blant ac wyrion yn unig – nid yw am gymar, teulu agos arall na ffrindiau.

*Mae Huw yn gyfrifydd sy'n arbenigo mewn treth incwm, ewyllysiau a gwaith profiant.*

# Llond lle o lyfrau newydd

Mae ***Llew a'r Dant Coll***, sef y llyfr nesaf yng nghyfres poblogaidd Cyw gan Anni Llŷn, yn dilyn un o ffrindiau gorau Cyw, wrth iddo golli dant ac aros yn eiddgar am y dylwythen deg.

Dyma'r seithfed yn y gyfres o lyfrau Cymraeg Cyw sydd yn addas i blant saith ac iau. Mae'r gyfres yn gweld gwasg y Lolfa yn cydweithio gyda chwmni teledu Boom Plant ac S4C i greu a chyhoeddi'r gyfres.

Cafodd stori fer am Cyw a'i ffrindiau ei chyhoeddi ar gyfer Diwrnod y Llyfr eleni, yr ail lyfr Cymraeg erioed i fod yn rhan o'r ymgyrch. Roedd *Darllen gyda Cyw* yn stori am y criw o ffrindiau yn darllen a mwynhau llyfr yr un.

Mae'r gyfres wedi cael enw da fel ffordd o ddysgu geirfa i blant bach – geirfa sy'n gysylltiedig gyda phatrymau iaith syml ar thema'r stori. Mae storïau'r gyfres yn ymwneud â phethau a digwyddiadau cyfarwydd i blant, a'r cymeriadau'n adnabyddus iawn, gan i raglenni Cyw ddathlu 10 mlynedd ar y teledu y llynedd.

Mae'r llyfr ***Genod Gwych a Merched Medrus*** (Y Lolfa) gan Medi Jones-Jackson yn dilyn llwyddiant llyfrau Saesneg fel *Rebel Girls* ond dyma lyfr gwreiddiol sy'n cofnodi hanes 14 o ferched ysbrydoledig o Gymru ac mae'n gyflwyniad perffaith i rai o ferched blaenllaw Cymru a wnaeth anelu'n uchel, cyrraedd y brig a newid siâp ein cenedl.

Ceir hanes bywyd a ffeithiau diddorol am Tori James, Gwendoline a Margaret Davies, Betty Campbell, Frances Hoggan, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn, Kate Bosse Griffiths, Angharad Tomos, Jade Jones, Haley Gomez, Betsi Cadwaladr a Mair Russell-Jones. Mae'r casgliad yn amrywio o ran lleoliad daearyddol a maes gan gynnwys meddygaeth, addysg, gwyddoniaeth, llên, chwaraeon a chelf. Mae pob un wedi cyflawni campweithiau yn eu meysydd penodol. Mae yna weithgareddau llawn hwyl a lliwgar ar ddiwedd y gyfrol, sy'n ymwneud â phob un o'r merched medrus. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys posau, holiadur, chwilair a chelf.

Mae ***Mali: Storïau am Gi Bach ar y Fferm*** (Y Lolfa) gan y gantores boblogaidd, Gwawr Edwards yn cynnwys pedair stori – un stori i bob tymor ac felly cawn ddilyn tymhorau y byd amaethyddol drwy lygaid sbaniel King Charles bach a'i ffrindiau.

Mae'r pedair stori fer yn trafod themâu cyfarwydd i blant – diwrnod mabolgampau, cael picnic, gwylio'r tân gwyllt a mynd i sglefrio ar y llyn rhewllyd. Mae'r testun yn cyflwyno plant i ddywediadau a chwpledi Cymraeg fel 'Ebrill, tywydd teg a ddaw, gydag ambell gawod law.'

Yn wreiddiol, fe ysgrifennodd Gwawr y straeon ar gyfer ei merch fach Nel, sydd nawr yn bedair oed. Mae ganddyn nhw gi sbaniel o'r enw Mali, sydd wedi ysbrydoli'r straeon. Mae lluniau hyfryd Ali Lodge yn bywiogi'r storïau, ac yn rhoi cymeriad annwyl iawn i Mali'r ci.

Bydd hefyd CD yn cyd-fynd â'r llyfr. Meddai Gwawr: "Gan taw cantores ydw i a fy ngwreiddiau yn ddwfn ym myd cerddoriaeth, meddyliais y buasai'n syniad hyfryd i gyfansoddi caneuon i gyd-fynd â'r storïau a chreu CD i blant wedi'i seilio ar y llyfr."

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 20 Mai cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Derith Rhisiart. Y testun oedd 'Gwirionedd', ond roedd cynnwys yr anerchiad ar seicoleg iechyd. Mae Derith wedi troi yn seicolegydd, wedi gweithio am nifer o flynyddoedd yn y byd teledu. Ar hyn o bryd mae hi'n gwneud doethuriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o destunau gan gynnwys cyfweld ysgogol (*motivational interviewing*) yn Gymraeg. Techneg yw hon lle mae'r holwr yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad cleifion drwy roi cymorth ac anogaeth iddynt wneud dewisiadau adeiladol. Pwysleisiodd Derith ei fod yn bwysig bod y seiciatrydd yn gwrando yn astud ar y claf, a dangos parch cyn gwneud unrhyw awgrymiadau. Mae Derith yn ceisio profi bod cyfweld ysgogol yn gweithio yn well yn y famiaith.

Mae hefyd yn ystyried a yw siaradwyr dwyieithog yn cynhyrchu mwy o emosiwn wrth drafod materion yn eu mamiaith. Mae gan yr ymchwil yma ddefnyddiau tu hwnt i Gymru gan ystyried ieithoedd lleiafrifol eraill fel iaith y Maori, yr Aborigini ac Indiaid brodorol America. Soniodd Derith am y fframwaith *Mwy na Geiriau* gan Gofal Cymdeithasol Cymru, cynllun sy'n annog darparwyr gofal i gynnig gwasanaethau o'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nod y gwaith yma yw creu dull safonol o siarad gyda chleifion.

Yna trafododd Derith y diffyg anogaeth ar siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle ac am y syniad y dylid trafod materion proffesiynol yn Saesneg. Mae rhai yn honni mai diffyg geirfa yw y rheswm am hyn, ond yn aml nid yw'r termau technegol maes iechyd yn eiriau Saesneg. Mae tystiolaeth bod trafod materion iechyd yn eich mamiaith yn adeiladu perthynas therapiwtig gwell. Cawson ni i gyd ein ysbrydoli i ofyn am y llinell Gymraeg mewn pob ymholiad o hyn ymlaen!

# Cylch Cinio Cymreg Caerdydd


Y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Mai o'r Cylch Cinio oedd Ann Beynon. Bu'n fenyw fusnes amlwg yng Nghymru yn ystod ei gyrfa. Mae wedi ymgymryd â rolau pwysig yn y sector preifat a chyhoeddus – Cyfarwyddwraig Cymru i BT, Comisiynydd Cymru i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Pennaeth Materion Cyhoeddus ac Ewropeaidd S4C, Uwch-ymgynghorydd Cwmni Dŵr Hafren Trent dros Faterion Cymreig, aelod o CBI Cymru i enwi ond ychydig. Urddwyd hi â'r OBE am ei chyfraniad i fusnes a gwasanaethau elusennol, a derbyniwyd hi i'r Orsedd er anrhydedd.

Yn ei hanerchiad bu Ann yn sôn am ei gyrfa yng nghyd-destun ei magwraeth a'i chefndir. Roedd yr aelwyd gartref yn ddwyieithog, Cymraeg y de gyda'i mam a Chymraeg y gogledd gyda'i thad. Roedd ymweliadau cyson â Glanaman ac Abertawe i weld y teulu. Roedd un cymeriad o Gwmaman yn amlwg iawn ym mywyd Ann er iddo farw ymhell cyn ei geni, sef Tadcu Beynon, Lewis Beynon, fu'n gaffer gwaith tin y Raven yng Nglanaman, gwaith nodedig yn ei ddydd. Bu'n flaengar yn y gwaith o sefydlu ysbyty'r glowyr yn y pentref ac yr oedd yn flaenor gyda'r Annibynwyr ym Mryn Seion. Talodd i dair o'i wyresau gael mynd i goleg ysgrifenyddol yn lle gweithio mewn siop neu fynd i weini. Roedd yn ddyn busnes oedd wedi llwyddo. O ganlyniad roedd yn gallu cyfrannu i'w gymdeithas.

Graddiodd Ann yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor, ac wedi astudio gwaith y Gogynfeirdd yn Oes y Tywysogion roedd darllen *balance sheet* neu gofrestr risg yn hawdd! Cyfaddefodd fod ennill wedi bod yn bwysig iddi erioed. Peth pwysig arall oedd gweithio'n galed. Dyfynnodd rai o ymadroddion Dyffryn Nantlle sy'n ymgorffori'r nodwedd hon: drwy chwys dy wyneb, rhoi eich trwyn ar y maen, gweithio â deg ewin, torchi llewys.



*Tomos Watkin; Ann Beynon, siaradwraig wadd mis Mai; Bill Davies, Llywydd 2018-9*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Parti'r Efail fu'n diddanu'r dorf a ddaeth ynghyd ar 20 Mai i Fethel, Rhiwbeina. Dan arweiniad Menna Thomas, rhoddodd dau ar bymtheg o fechgyn noson ardderchog o ganu gwerin a'u cyflwyno'n ddramatig a theimladwy, yn ôl y galw. Gyda'r parti, bu'r gynulleidfa ar daith drwy'r siroedd. Cafwyd tribannau o Forgannwg, *Cân y Cardi* o Geredigion, a *Ceidwad y Goleudy* o Fôn. Cafwyd unawd gan Huw i fynd â ni i Gonwy ac i gynrychioli Glyn Nedd canodd y parti *Y Deryn Pur*. Trefniant o emyn Eifion Wyn, *Efengyl Tangnefedd*, aeth â'r gynulleidfa ymlaen i Borthmadog.

Bu cymeradwyaeth gref i unawdau Menna ac Iwan, hithau'n canu *Carol Fai* ac yntau'n codi'r to gyda *Rwy'n ddeg ar hugain oed*. Roedd darn adrodd Ifan Roberts o'i waith ei hun yn ddoniol. Disgrifiodd sawl rhaglen ar S4C a'r modd mae gallu'r rhai sy'n coginio neu'n trin yr ardd neu'n gwisgo yn gwneud i ni feidrolion deimlo'n anaddas.

Ar noson mor gofiadwy mae sawl peth yn aros yn y cof ond rhaid nodi'n arbennig Band Pres Cwm Rhyd y Corgi a'r Parti Cerdd Dant. Ac am barti sy'n geirio'n wych! Diolch yn fawr iddyn nhw ac i Gwyn Jones am lywio'r cyfan.

Llongyfarchwyd Gwilym Roberts ac Alun Guy a anrhydeddwyd gan yr Urdd yn Llywyddion yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

# Cymrodorion Y Barri

Nos Wener 17 Mai dathlwyd noson olaf tymor Cymrodorion y Barri gyda Noson Lawen yng Nghanolfan Palmerston. Diolch yn fawr i Mared Furnham am drefnu'r noson.

Roedd hi'n noson hwyliog, gyda chryn dipyn o ddysgwyr yr ardal wedi galw heibio i ymuno â ni. Roedd hi'n braf cael cwmni Gareth Thomas ar ôl cyfnod o anhwylder a mwynhau ei stori am y fuwch a'r ddawn i iachau!



Teulu Maurer a'r Sanau Drewllyd

Roedd yr arlwy yn arbennig ac yn amrywiol a phawb yn canmol ac wedi mwynhau mas draw. Roedd dau deulu'n sefyll allan, a rhaid edmygu eu talent: teulu'r Whelans, teulu mor gerddorol a pharod i gefnogi, gyda Gareth ar y ffidil, Carys yn cyfeilio a Mared yn chwarae'r soddgrwth; a'r teulu Maurer – a'u grwp Sanau Drewllyd - cyn-ddysgwyr sy bellach yn gwbl rhugl, a'r plantos Anabel a Stephanie yn perfformio'n arbennig o wych.

Cynhaliwyd raffl er budd Cymorth Cristnogol a throsglwyddwyd dros £90 i'r gronfa.

Yn ystod y noson trosglwyddwyd awenau'r llywyddiaeth i Ann Jones, gan ddymuno'n dda iddi yn y swydd. Bydd tymor newydd y Cymrodorion yn cychwyn nos Fawrth 17 Medi. Ceir mwy o wybodaeth ar ein tudalen Facebook www.facebook.com/daviddaviesllandinam.

# Cymdeithas Edward Llwyd

Mae'n fis Mai a gŵyl banc y Pasg wedi hen fynd. Mae'r coed ceirios ar hyd y stryd y tu allan i'r tŷ wedi rhoi sioe arbennig i ni eleni. Erbyn hyn mae'r coed afalau cynhenid wnes i blannu dair blynedd yn ôl yn prysur flodeuo. Mae'r gwanwyn yn symud ymlaen â chlychau'r gog a garlleg yr arth yn gosod carpedi o liw o dan y coed. Mae lliwiau yn newid drwy'r amser a braf iawn yw bod allan yn ein cefn gwlad.

Ychwanegwch gwmni da a'r iaith Gymraeg a dyna i chi rysáit i greu diwrnod llawn mwynhad. Fel mae'n digwydd mae cyfle am hyn pob dydd Sadwrn. Bydd ein teithiau o ganol Mehefin tan ganol mis Gorffennaf yn ardaloedd Machynlleth, Llangadog, Llanrhidian, Llanbedr Pont Steffan a Llandeilo. Ymunwch â ni ar un ohonyn nhw i chi weld mwy o'n gwlad hyfryd.

I ddarllen adroddiadau llawn am ein teithiau ewch at http://www.gydangilydd.cymru
Mae manylion llawn o'n rhaglen ar ein gwefan http://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddaur-de/



Garlleg yr arth

# Merched y Wawr Bro Radur

'Fy nhrysor i' oedd testun sgwrs dwy o'n haelodau. Y cyntaf o drysorau Rhiannon Evans oedd piser mawr, trwm wedi tsipio yn sgil blynyddoedd o ddefnydd. Prin y byddai hwn yn werth unrhyw arian mewn siop hen bethau, ond mae'n cysylltu Rhiannon yn dynn gyda'i bro enedigol. Perchnogion gwreiddiol y piser oedd John a Winnie Griffiths, bwthyn Troed y Rhiw, ac arferai John weithio ar fferm teulu Rhiannon. Er i'r bwthyn fynd â'i ben iddo wedi dyddiau John a Winnie, saif un wal yn gadarn i brocio'n cydwybod. Arni mae'r geiriau *Cofiwch Dryweryn*.

Ei hail drysor oedd albwm o luniau a dynnwyd ar achlysur pen-blwydd arbennig. Cafwyd aduniad teuluol yn yr hen gartref, ac roedd taith gerdded ar hyd y llwybr yr arferai Rhiannon ei gerdded i'r ysgol a'r capel, picnic yn y cwm a pharti yn y festri. Ac mae'r cyfan wedi ei groniclo yn yr albwm hyfryd. A'i thrydydd trysor oedd casgliad o 19 o lwyau i gofnodi ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol ag 19 bro wahanol rhwng 1984 a 2002 a phob llwy yn dwyn atgofion lu.

Trysorau Eirlys Davies oedd tarian, picell fain a phastwn o wlad Cenia. Dim ond y darian enfawr a ddaeth Eirlys gyda hi ar y noson (am resymau ymarferol a diogelwch!). Rhoddwyd y trysorau hyn i'w



*Rhiannon Evans ac Eirlys Davies*

gŵr, y diweddar Barch. T J Davies, yn y Masai Mara flynyddoedd lawer yn ôl. Mae'r patrwm ar y darian yn fodd i adnabod y llwyth ac oedran yr ymladdwr. Bu TJ, Eirlys a'u merch Esyllt yno ar ymweliad. Difyrrwyd pob un ohonom wrth i Eirlys adrodd ychydig o hanes y daith.

# Merched y Wawr Caerdydd

Yn dilyn ein Cyfarfod Cyffredinol nos Fawrth, 14 Mai, cawsom orig ryfeddol o ddiddorol a hwyliog yng nghwmni gwraig arbennig iawn, sef Julia Burns. Teitl ei sgwrs oedd 'Fy nhaith iaith bersonol'.

Yn ifanc, cymysglyd oedd ei theimladau at yr iaith yn gyffredinol. Byddai'n siwrnai ddigon unig, gan nad oedd dim cefndir Cymraeg ar gael yn y teulu i'w helpu. Er iddi glywed yr iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol



*Julia Burns a Rhiannon Gregory*

am y tro cyntaf yn ei bywyd yng Ngholeg Addysg Gymraeg, tra yno gwelodd fod diffyg dealltwriaeth dybryd ar ran y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. Yn fuan wedi gorffen yn y Coleg cafodd ei hun y tu ôl i'r til mewn archfarchnad ym Melbourne, Awstralia. A hithau'n Ddydd Gŵyl Dewi 1974, daeth gwraig i mewn gan wisgo cenhinen Pedr a gofyn iddi a oedd hi'n siarad y Gymraeg. Dyna ei 'moment Damascus' meddai.

Daeth yn ôl i Gymru a phenderfynu ymroi gant y cant i ddysgu'r iaith. Cafodd athrawon nad oedd eu gwell am ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith, sef Cennard a Basil. Aeth ymlaen i'r Brifysgol yn y ddinas a chwblhau gradd anrhydedd yn y Gymraeg.

Cafodd waith fel Swyddog Addysg Archifdy ac Amgueddfeydd Gwynedd am saith mlynedd cyn dod yn ôl i'w chynefin. Bu galw mawr amdani fel athrawes mewn sawl ysgol yma yn y ddinas a thu hwnt, ac yn Ysgol Uwchradd Sant Illtud fel Pennaeth yr Adran Gymraeg y gorffennodd ei gyrfa.



# Gŵyl Wanwyn Rhanbarth y De-ddwyrain

Plasty hynafol yng nghanol gerddi toreithiog ar brynhawn o wanwyn cynnar; a oes lleoliad gwell ar gyfer Gŵyl Wanwyn y Rhanbarth? Eleni, cangen Bro Radur oedd yn gwahodd aelodau o'r canghennau eraill yn y de-ddwyrain i ymuno â hwy yng Nghwrt Insole, Llandaf, i fwynhau prynhawn o gymdeithasu.

Wedi gair o groeso gan Ruth Davies, llywydd Bro Radur, ac ychydig o hanes Cwrt Insole, cafwyd cyfle i fwynhau hanner awr o gerddoriaeth gan y ddeuawd offerynnol Ann Williams a Mehefin Parry-Jones, y naill ar y delyn a'r llall ar yr acordion. Pwy fyddai wedi meddwl y byddai dau offeryn mor wahanol yn asio mor odidog! Cafwyd ganddynt daith gerddorol o amgylch nifer o wledydd Ewrop ac America, a chyfle i ganu *Ar lan y môr* a *Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir* fel ton gron. Yna, te prynhawn traddodiadol o frechdanau ac amrywiaeth o deisennau bychain a baratowyd gan aelodau'r gangen. Hyfryd hefyd oedd cael y cyfle i fusnesa o amgylch ystafelloedd y plasty a chrwydro'r gerddi cyn troi am adre.

Yn ystod y prynhawn beirniadwyd y cystadlaethau ar gyfer Sioe Llanelwedd. 'Yr Arfordir' oedd thema pob cystadleuaeth. Llongyfarchiadau i'r enillwyr canlynol, a fydd yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol yn y Sioe ym mis Gorffennaf:

Cap a sgarff – Brenda Jones, Bro Radur

Ffotograff – Gwyneth Davies, Cwm Rhymni

Mosaig – Jenni Jones-Annetts, Cwm Rhymni

Torth - Erith Davies, Bro Radur

Trefniant blodau – Ruth Davies, Bro Radur



***Mehefin ac Ann***





***Rhai o'r cynnyrch buddugol***



***y criw trefnu***

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Llandeilo a Pharc Dinefwr oedd cyrchfan yr Aelwyd yn ystod mis Mai. Ar waethaf y tywydd garw gwlyb bu'n brofiad dymunol i'r aelodau. Wedi mwynhau cinio ganol dydd yn yr Hydd Gwyn, aeth pawb i Dŷ Newton ar dir eang Dinefwr yn Nyffryn Tywi, gan olrhain hanes y teulu Rhys yn y tŷ o'r 17eg ganrif. Rhyfeddwyd at y tŷ sy'n dyddio o 1660 – y nenfwd addurnedig, y grisiau crand a'r peintiadau arbennig. Er i ni fethu â chrwydro'n rhydd ar hyd y llwybrau oherwydd y tywydd, gwerthfawrogwyd gweld o bell y ceirw a'r gwartheg gwyn enwog sydd wedi pori'r tir ers canrifoedd, 'nôl i 920, a gofnodwyd yng Nghyfreithiau Hywel Dda – diwrnod diddorol a chymdeithas dda!


*Menna Brown*

Brethyn Cartref gan un o aelodau'r Aelwyd oedd testun ail gyfarfod mis Mai. Arweiniwyd yr aelodau drwy daith bywyd yr Ysgrifennydd, Menna Brown, o'i babandod yn Llangrannog, plentyndod yn ysgolion Pontgarreg ac Aberteifi, a'i phrofiadau fel gweithiwr cymdeithasol, ym Mudiad Ysgolion Meithrin a'i gweinidogaeth yn Abergwaun. Nodwyd ei chysylltiad ag Isfoel - un o Fois y Cilie – colli ei thad yn bedair oed i'r frech wen yn Nwyrain Affrica, ei gladdu yn Nairobi a'i goffáu ym Mombasa. Daeth ei phrofiadau ag atgofion lu i gof pawb oedd yn bresennol am eu profiadau amrywiol hwythau.

Daw'r tymor i ben ar 5 Mehefin gyda'r Te Mefus yng nghwmni Delwyn Sion am 2 o'r gloch yn Festri Minny Street.

# Cymdeithas Cymru Ariannin – Cangen y De

Nos Fercher 15 Mai cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol gan ethol Sandra de Pol yn Gadeirydd a Rhisiart Arwel yn is-gadeirydd.

Daeth Gwenno Rees atom i drafod y cyfnod a dreuliodd yn y Wladfa fel Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg o Chwefror 2018 tan Ragfyr 2018. O wrando ar ei sgwrs fyrlymus gyda lluniau difyr a phwrpasol, cawsom olwg ar y flwyddyn brysur tu hwnt a dreuliodd ym Mhatagonia. Yn y Dyffryn y treuliodd ei hamser, gan fwyaf yn ardaloedd y Gaiman a Threlew. Bu'n dysgu yn yr ysgolion Cymraeg a sefydlwyd bellach yn y ddwy dref, ond roedd ganddi lawer mwy o orchwylion - dysgu dawnsio gwerin a dysgu ynganu'r Gymraeg i Glwb Rygbi'r Ddraig Goch. Maent erbyn hyn yn bwriadu cynnal ysgoloriaeth i ddanfon chwaraewyr rygbi i Gymru.

Dysgodd wersi i oedolion hefyd, a roedd ymgodymu â'r iaith yng Ngholeg Camwy yn dipyn o her iddi. Yn ogystal roedd hi'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau hamdden i Menter Patagonia, a chyfrannu at y cyhoeddiad ar-lein *Clecs Camwy*. Aeth i chwech eisteddfod yn ystod y 10 mis, a chydag Eluned Gonzales aeth ar daith i ganol y Paith i chwilio am Gymanfa Ganu; a dod o hyd i 200 o bobol yn morio canu emynau yn y diffeithwch! Ar ôl y gwaith caled ond gwerth-chweil, aeth Gwenno ar daith hir o gwmpas gwledydd De America. Mae hi erbyn hyn 'nôl yn dysgu yng Nghaerffili.


*Gwenno*

Diolch Gwenno am noson ddifyr, fyrlymus ac addysgiadol!

## Cyfarfod Blynyddol 2019

**Oes gyda chi hanner awr i'w sbario i roi hwb i'r Dinesydd?**

**Byddem wrth ein bodd o gael eich cwmni**
**am 7.30 yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina, nos Fawrth, 18 Mehefin.**

**Dyma gyfle gwych i gefnogwyr ein papur bro fynegi barn**
**a'n helpu i ddatblygu'r papur ar gyfer y dyfodol.**

**Croeso cynnes i bawb.**
**Bryan James, Cadeirydd**

# CERDYN POST O KARACHI

## Lowri Haf Cooke yn holi Elin Mair Burns

***Mae Elin Mair Burns, sy'n 35 oed, yn Ddirprwy Uwch Gomisiynydd i Karachi a Chyfarwyddwr Masnach ym Mhacistan.***

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**

Cefais fy magu yn Llandaf, a mynychu ysgol Glantaf. Dwi'n lwcus bod gen i griw da o ffrindiau yno o hyd, a dwi'n mwynhau dychwelyd adre pan fedra i.

**Pryd a sut lanioch chi yn Karachi, a beth ydych chi'n ei wneud yno?**

Ces i fy swydd fel Dirprwy Uwch Gomisiynydd Prydain i Karachi yn Hydref 2017. Dwi'n gyfrifol am gynrychioli diddordebau Prydain yn Karachi a thalaith Sindh, gan gynnwys masnach, cysylltiadau rhyngwladol ac economaidd.



**Disgrifiwch eich diwrnod delfrydol yn Karachi...**

Brecwast yn caffi Xanders sydd â bwyd ffres a choffi da. Wedyn ychydig o siopa – ma'r defnyddiau a'r dillad yn lliwgar ac yn rhesymol a dwi 'di mwynhau'r cyfle i wisgo saris a shalwar kameez. Dydy diwrnod ym Mhacistan ddim yn gyflawn heb wylio criced. I gloi'r diwrnod, byswn i'n mynd i wylio ffilm Pacistani: ma un o fy ffefrynne, *Cake*, ar Netflix ym Mhrydain erbyn hyn!

**Pa dri lle yno y byddech chi'n annog i rywun o Gaerdydd a'r Fro eu profi, er mwyn cael blas go dda o'r ddinas?**

Frere Hall. Wedi'i adeiladu yn 1865 fel Neuadd y Ddinas, erbyn hyn mae'r adeilad yn cynnwys llyfrgell – mae'n esiampl wych o bensaerniaeth y cyfnod.

Oriel gelf Canvas. Cymysgedd wych o gelf gyfoes o Bacistan, a phrisiau rhesymol. Dwi di mwynhau darganfod sîn celf Karachi, ma na bob math o ddigwyddiadau creadigol.

Traeth Clifton. Mae mynd am dro ar y traeth yma yn draddodiad mawr i bobl Karachi – cyfle i'r awel leddfu gwres y ddinas, ac wrth gwrs i fynd ar gefn camel.

**Beth yw'r pryd bwyd gorau gawsoch chi yn Karachi?**

Cinio barbeciw yn Kolachi, bwyty ar lan y môr. Mae'r bwyd yn ffantastig (efo digon o sbeis!) ac mae'r bwyty wedi ei leoli reit ar lan y dŵr. Ma 'na deimlad o fod yn agos at natur sy'n gyferbyniad neis â phrysurwch Karachi.

**Ble mae'r olygfa orau yno?**

O dop adeilad Centre Point, tŵr uchel yng nghanol yr ardal fasnachol. Mae Karachi yn ymestyn i bob cyfeiriad ac mae'n cyfleu maint enfawr y ddinas.

**Beth ydych chi'n ei golli fwyaf am Gaerdydd?**

Teulu a ffrindau! A'r awyrgylch yn y ddinas yn ystod gemau rygbi…

## Pêl-droed Ieuenctid

Fe ddaeth deuddeg o dimau pêl-droed iaith Gymraeg dan 7 oed y brifddinas at ei gilydd ar gyfer twrnamaint mawreddog yn Gôl. Roedd chwe thîm o Cymric Crocs, pedwar tîm o'r Urdd a dau dîm Inter Penarth wedi dod at ei gilydd ar gyfer bore o herio'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe gafwyd pum gêm yr un a'r bechgyn a'r merched wedi cael bore i'w gofio! Bydd digwyddiad tebyg yn cael ei drefnu eto'n fuan.



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS DEWI SANT

***Cyngerdd Dathlu 40fed Ben-blwydd Côr Philharmonic Caerdydd***

Cynhaliwyd y gyngerdd yn Eglwys Dewi Sant, nos Sadwrn, 11 Mai a pherfformiwyd, am y tro cyntaf, *Rhuad y Ddraig* a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Eric Jones a 'r geiriau gan Christine James. Perfformiwyd hefyd Requiem Mozart.

***Gwasanaeth Teuluol***

Sgwrs am waith Cymorth Cristnogol yn Sierra Leone a gafwyd gan y ficer yn y gwasanaeth ddydd Sul 12 Mai. Wedyn, yn neuadd yr eglwys, cynhaliwyd stondin cynnyrch cartref er budd Cymorth Cristnogol a gwnaed elw o £258.18. Diolch i Dilys Jones a Heulwen Jones am drefnu.

***Datganiadau Organ***

Croesawyd Carleton Etherington, Abaty Tewkesbury i Eglwys Dewi Sant ddydd Gwener, 17 Mai a James Gough, ddydd Gwener, 24 Mai 24 i gloi'r gyfres.

***Coffi a Chlonc***

Da oedd gweld cynifer yn y bore coffi misol ddydd Sadwrn, 18 Mai.

***Cymdeithas Nos Iau***

Trefnwyd ymweliad ag Amgueddfa Sain Ffagan, brynhawn Iau, 23 Mai. Profiad pleserus oedd camu i un o atyniadau diweddaraf yr amgueddfa sef Llys Llywelyn. Ar ôl crwydro hamddenol yn yr heulwen, mwynhawyd pryd o fwyd blasus yn Nhafarn y Coopers. Diolch i Dyfrig am drefnu.

***Ymarferion y Côr***

Mae'r ymarferion wedi ail gychwyn ar ôl seibiant y Pasg a'r côr yn paratoi ar gyfer y Sulgwyn.

***Taith Gerdded***

Cafwyd taith gerdded ddydd Llun, 27 Mai yn ardal Castell Aberogwr.

## TABERNACL, YR AIS

***Gwasanaethau'r Grawys a'r Pasg***.

Cafwyd oedfa Gymun ar nos Iau Cablyd, gyda nifer o aelodau yn dosbarthu byniau'r Grog allan ar yr Ais cyn y gwasanaeth. Roedd yr ymateb yn diddorol, gyda rhai yn brasgamu heibio ac eraill yn hapus i sgwrsio am y Pasg a'i arwyddocâd.

Diolch i Shirley Ann James a Dafydd Huw am gydlynu côr yr eglwys i gyflwyno dau ddarn yn oedfaon boreol Sul y Blodau a Sul y Pasg. Roedd yn ymdrech werthfawr a gobeithio bydd y cantorion yn barod i ganu darnau tebyg ar gyfer oedfaon yr eglwys i'r dyfodol.

***Oedfa ardaloedd Rhiwbeina, Caerffili a Thongwynlais.***

Gwerthfawrogwyd naws addolgar yr oedfa a drefnwyd gan aelodau'r eglwys sy'n byw yn yr ardaloedd hyn, gyda darnau'r organ yn cyfrannu at y cyfanwaith. Mae'n braf i weld pobl yn barod i fod yn rhan o'r cynllunio a'r cyflwyno.

*Ymweliad â Hostel Huggard*

Aeth nifer ohonom i'r hostel, ynghyd â rhyw ddwsin o aelodau eraill Eglwysi Cytûn. Fel arfer, dyma'r lloches cyntaf i'r rhai sydd wedi bod yn cysgu ar y stryd. Pwysleisiwyd yr angen i dderbyn ac nid gwrthod y math yma o berson. Yn ogystal â lloches, bwyd, gofal meddygol a nifer o weithgareddau, mae pob person yn derbyn cwnsela dwys a rhaglen bersonol mewn ymgais i oresgyn eu problemau.

***Ffair Haf Cymorth Cristnogol***

Cynhaliwyd y ffair ddydd Sadwrn 18 Mai gydag amrywiaeth o stondinau, gan gynnwys cacennau, planhigion a dillad.

***Bore Coffi yr Aelwydydd***.

Gwerthfawrogwyd y cyfle i ymgasglu ar aelwyd Jean Evans yn Nhongwynlais yn ystod mis Ebrill. Ym mis Mai, buom yn ymweld â chartref Nigel a Nicola Baker gan dderbyn yr un croeso.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn ystod y mis cynhaliwyd bore coffi yn y capel a braf oedd gweld cynifer o ffrindiau ac aelodau yn dod i gefnogi'r achlysur. Codwyd £428 tuag at yr elusennau Marie Curie a Headway.

Cawsom y newyddion trist bod Dilwyn Jones wedi colli ei fam yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn ddwys gydag ef a'r teulu.

Rydym yn llongyfarch ein horganydd Gwilym Roberts ar gael ei ddewis yn un o bedwar Llywydd Anrhydeddus Urdd Gobaith Cymru. Diolchwn i Gwilym am ei gyfraniad brwdfrydig i'r Urdd dros y blynyddoedd. Fel capel rydym hefyd yn diolch i Gwilym am ei ymroddiad i'w swydd fel organydd Bethel.

Ar 1 Mai ymunodd rhai o aelodau Bethel ag aelodau Salem i fynd ar daith i Nantgaredig. Yr achlysur oedd gwasanaeth ymadawol ein gweinidog y Parch Evan Morgan ar ddiwedd ei flwyddyn fel Llywydd Sasiwn y De. Cyn trosglwyddo'r awenau i'r llywydd nesaf cawsom bregeth i'w chofio gan Evan. Gobeithio bydd cyfle i'w chlywed eto.

Edrychwn ymlaen at fwynhau arddangosiad blodau gan Ann ar 4 Mehefin am 10.30. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno â ni.



***Criw Eglwys Dewi Sant yn Llys Llywelyn yn Amgueddfa Sain Ffagan***

## BETHEL, PENARTH

Wrth lunio'r nodiadau hyn bydd ein gweddïau a'n dymuniadau gorau yn mynd at Howard, sy'n wynebu llawdriniaeth ddifrifol. Yn yr un modd cofiwn yn dyner am Betsan, Ruth a Hannah.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Jan Morgan, arweinydd ein Cylch Meithrin, yn ei phrofedigaeth wedi colli ei mam.

Llongyfarchwn Siân Meinir ar ei llwyddiant wrth ennill Cadair Eisteddfod Llanuwchllyn.

Ar Sul cyntaf Mai cawsom oedfa hyfryd o wahanol dan arweiniad ein cyd-aelod Rhodri. Ei thema oedd Llawenydd a Hapusrwydd. Cawsom ein tywys ar hyd rhai llwybrau yn hanes Cymru, drwy air, drwy ddawns (trwy gyfrwng fideo) a thrwy emynau.

Cyflwyniad gwahanol arall gawsom ar 19 Mai dan arweiniad Gareth Ffowc Roberts, mathemategydd disglair. Ei thema oedd Rhyfeddu a dewis Gareth oedd y rhif a gynrychiolir gan y symbol π. Bu rhaid i nifer ohonom chwilio dyfnderoedd cof am wersi ysgol! Atgyfnerthwyd neges Gareth yn ei wisg, sef tei pi, sy'n cynnwys miloedd ar filoedd o ddigidau y rhif rhyfedd hwn.

Yn oedfa hwyr 19 Mai bu'n gweinidog yn tynnu'n sylw at y mynych gyfeiriadau at ddŵr sy yn Efengyl Ioan.

Ar 26 Mai, yn fuan wedi diwedd Wythnos Cymorth Cristnogol, cawsom yr hyfrydwch o groesawu Mari McNeill, Prif Weithredwr yr elusen yng Nghymru. Bu hithau a'n gweinidog yn rhannu'r moddion. Gan Kevin, yn ei anerchiad i'r plant, bu pwyslais ar eiriau yn adnod 4 o Salm 54, 'Duw yw fy nghynorthwywr ... cynhaliwr fy mywyd'. Wedi iddi ddiolch i aelodau Bethel am eu ffyddlondeb i'r elusen dros y blynyddoedd, cyflwynodd Mari ei neges drwy gyfrwng fideo am waith Cymorth Cristnogol gyda mamau beichiog yn Sierra Leone.

## SALEM, TREGANNA

***Dathlu 60 mlynedd yn y Weinidogaeth***

Cawsom gyfle i gydnabod cyfraniad y Parch Dafydd Owen wrth ddathlu 60 o flynyddoedd yn y weinidogaeth ddechrau Mai, yn Salem. Diolchwn iddo a'i wraig Brenda am gyfraniad aruthrol.



***Y Parch. Dafydd Owen gyda Brenda ei briod, a'n gweinidog Evan***

***Brecwast mawr Cymorth Cristnogol***

Codwyd £513 tuag at Cymorth Cristnogol fore Sadwrn 18 Mai, wrth gynnal brecwast ben bore i gloi wythnos Cymorth Cristnogol yn Salem. Diolch i bawb am helpu a chyfrannu.

***Y Tymor Criced***

Mae'r tymor wedi dechrau, ac ar ôl sawl sesiwn yn y rhwydi, cawsom nosweithiau difyr wrth chwarae yn erbyn cyn-rieni Melin Gruffydd a staff Ysgol Plasmawr.

***Cydymdeimlo***

Cydymdeimlwn yn fawr ag Eleri a Gareth Cooper a'r teulu wedi i Eleri golli ei mam yn ddiweddar. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch yn eich colled.

## EBENESER

***Cymorth Cristnogol***

Fore Sul 12 Mai cynhaliwyd gwasanaeth ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Cymerwyd rhan gan nifer o aelodau a gwelwyd fideo am waith y mudiad gyda merched yn Sierra Leon. Y bwriad yw rhoi cyfle i ferched gael addysg a bywyd gwell a rhoi'r sylw maent yn ei haeddu. Ar ôl yr oedfa cynhaliwyd Brecwast Bach er mwyn codi arian a chymdeithasu. Dros y ddau Sul canlynol cafwyd cyfle i gyfrannu at waith hanfodol y mudiad hwn. Mae dal cyfle unrhyw bryd i gyfrannu trwy fynd i'w gwefan www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/cymru

***Yr Alwad***

Nos Fawrth 15 Mai cynhaliwyd cyfarfod yn y Tabernacl gan Cyhoeddiadau'r Gair i lawnsio cyfrol newydd *Yr Alwad* sy'n cyflwyno hanes 20 o weinidogion a'r modd y galwodd Duw hwy i'r weinidogaeth. Y mae dau o Ebeneser wedi cyfrannu pennod i'r llyfr sef Gwilym ac Alun Tudur.

***Mynd am dro***

Ddydd Iau 16 Mai aeth Cymdeithas y Chwiorydd i Grochenwaith Nantgarw i weld yr amrywiaeth o grochenwaith sydd yn cael ei wneud yno. Roedd yr amrywiol grochenwaith yn anhygoel a'r addurno yn hynod o gywrain a medrus. Ym mis Gorffennaf fe fydd yno arddangosfa o borslen Nantgarw. Yn ddiweddarach yn y prynhawn cafwyd pryd blasus yng Nghlwb Golff Radur.

***Tom***

Llongyfarchiadau mawr iawn i Cynan Llwyd ar gyhoeddi ei nofel gyntaf sef *Tom* gan Wasg y Lolfa.

***Y Gymdeithas***

Cafwyd noson hyfryd yn y Gymdeithas nos Fawrth 21 Mai gyda Gwilym Dafydd yn siarad am ei dad y Parch Ddr Dafydd Davies, cyn-brifathro Coleg y Bedyddwyr, Richmond Road, Caerdydd ac un o dîm cyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd.



***Eirian a Gwilym***

## MINNY STREET

www.minnystreet.org;
@MinnyStreet;
Gweinidog: Y Parch. Owain Llyr Evans

Mae croeso i bawb – 'o'r ieuengaf i'r hynaf' – i'n hoedfaon ar y Sul (10.30 a 18.00). Y Gweinidog fydd yn arwain ein hoedfaon ar ddau Sul cyntaf y mis ac yn y bore ar 30 Mehefin. Bydd Cymundeb 2 Mehefin yn y bore ac yn yr hwyr ar 9 Mehefin. Cawn y pleser o groesawu y Parch Eirian Rees (Efail Isaf) i arwain yr addoliad fore Sul, 16 Mehefin a'r Parch. Lona Roberts (Caerdydd) gyda'r nos. Bydd dwy oedfa 23 Mehefin yng ngofal y Parch. Glyn Tudwal Jones (Caerdydd). Aelodau Pontcanna a Threganna fydd yn arwain oedfa nos Sul, 30 Mehefin. Bydd Ysgol Sul ar 2, 16, 23 a 30 Mehefin ac Oedfa Foreol Gynnar (9.30) ar 9 Mehefin. Yn dechrau toc wedi 10:30/18:00.

Bydd mis Mehefin eto'n brysur: Babimini (ddydd Gwener, 7 a 21 Mehefin am 9.45); Cwrdd Gweddi dros yr Amgylchedd (4 Mehefin am 19.30); Koinonia (12 Mehefin am 12.00, 16 Mehefin am 19.30); Llynyddwch (ddydd Gwener, 28 Mehefin am 10.00 yng nghaffi Terra Nova, Parc y Rhath); PIMS (nos Lun, 3 a 24 Mehefin am 19.30).

Bydd cynrychiolaeth o Eglwys Minny Street yn y canlynol: Gwasanaeth Cymdeithas y Beibl (nos Fercher, 12 Mehefin am 19.00 yn Salem, Treganna); Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr (13–15 Mehefin yn Rhyd-y-main); Cynhadledd Ewropeaidd Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (16–19 Mehefin, Utrecht, Yr Iseldiroedd); Tafwyl (21–23 Mehefin, pabell Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd) ac Ysgol Haf y Gweinidogion (24–26 Mehefin, Caerfyrddin).

Bydd cyfle hefyd i gyfrannu nwyddau at elusennau a phrynu nwyddau Masnach Deg yn ystod y mis.




## EGLWYS Y CRWYS

Rydym yn falch o groesawu Ifan Gwyn Parry i'r byd, yn fab bach i Meic ac Elin, brawd i Enlli, ac ŵyr i John a Mali Rowlands. Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob dymuniad da i'r teulu.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr E D Evans, oedd bron â chyrraedd ei 100 oed. Bu ED yn athro hanes yng Ngholeg Cyncoed, ac roedd yn aelod ffyddlon yn y Crwys tra parhaodd ei iechyd. Roedd yn gyfrannwr cyson i'r *Gadwyn*, cylchgrawn misol yr Eglwys. Cydymdeimlir yn ddiffuant â'i blant yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd ei angladd yn Nhywyn, Sir Feirionnydd.

Aeth aelodau 'Prynhawn Da' ar ymweliad ag Eglwys St. Margaret yn y Rhath a chafwyd sgwrs am hanes diddorol a hynafol yr eglwys. Wedi'r ymweliad, mwynhawyd te prynhawn yng Ngerddi Waterloo. Diolch i'r Parch Lona Roberts am y trefniadau.

Cafwyd cyngerdd hynod wefreiddiol gan Gôr CF1 a gynhaliwyd dan nawdd y Gymdeithas. Diolch i'r Côr am eu gwasanaeth ac i swyddogion y Gymdeithas am y trefniadau.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol cynhaliwyd Brecwast Cyfandirol a gwnaed elw sylweddol tuag at y mudiad. Cynhaliodd Cyngor Eglwysi Cymraeg ginio ysgafn hefyd yn y Crwys. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefniadau.

Yn ystod mis Gorffennaf y Gweinidog fydd yn gwasanaethu yn yr oedfa Gymun ar 7 Gorffennaf. Cawn groesawu'r Parch. Gethin Rhys i wasanaethu ar y 14eg; y Parch. Christopher Prew ar yr 21ain a'r Parch. Wyn Morris ar yr 28ain. Croeso i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau.

## CYNGOR EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD

Cynhaliwyd pryd ysgafn amser cinio er budd Wythnos Cymorth Cristnogol yn festri Eglwys y Crwys, dydd Iau, 16 Mai. Cydlynwyd y gweithgarwch gan Denzil John, ysgrifennydd; croesawyd rhyw ugain a mwy gan Gwilym Dafydd, llywydd; a chafwyd gair gan John Rowlands, cadeirydd dros dro Cymorth Cristnogol Cymru cyn awr o gydfwyta a chymdeithasu.

Dilynwyd hyn gan gyfarfod hyfforddiant yng ngofal Sara Morris, Agor y Llyfr. Bydd Adam Coleman yn gweithredu fel cydlynydd ar ran tîm CECC a'r gobaith yw y byddwn yn barod ac ar gael cyn bo hir i Agor y Llyfr sef cyflwyno storïau o'r Beibl ar wahoddiad rhai o ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd a'r cylch.


*John, Gwilym, Lona a Delwyn*

# Dyddiadur Deurodiwr Dŵad

Beiciwr bach diniwad yn dŵad nôl o dro i dro, i droedio, neu a deud y gwir, i ddeurodio hen lwybra a gweld be di be yn rhen Ga'rdydd ma.

**Mwngrela**

Pydru mynd ar y beic oeddwn tuag at y Crwys Bychan â'i Lyfrgell Carnegie urddasol. Yna 'nelais am un o'r llecynnau gwyrdd agored, braf sy'n britho'r ddinas er mwyn dianc o'i phrysurdeb gorffwyll. Man i'r enaid gael llonydd a chrwydro'n hamddenol (hynny yw, beicio dow-dow) ar hyd y llwybrau twt, heibio'r borfa daclus a than y coed aeddfed. Cyfle i mi fwynhau'r distawrwydd llethol – a cheisio osgoi'r miloedd cerrig beddi sy' yno!

Pan agorwyd Mynwent Cathays yn 1859 fe'i disgrifiwyd fel *"a green space for all people to access and walk through - the principal walk for the people of Cardiff"*, hyd nes agor Parc y Rhath yn 1894.

Wrth fynad trwy giât y fynwant mi welish i o'n sefyll yno'n pwyso ar ei ffon â golwg flêr fatha tramp arno.

"Bora da. Sut mae? Braf yn tydi?" medda fi wrth basio. Dwi'n gradur cyfeillgar, yn cyfarch pawb yn siriol – yn Gymraeg bob tro wrth gwrs. (A chitha hefyd, ma'shwr, …yn tydach?) Disgwyl rhyw "*Aa-rite*", neu "*Mornin*" o ymateb oeddwn.

Fe'm synnwyd gan ei "Shwt ma'i? Dydd dæ i chi 'efyd. Oti wir, ma'n bræf a'r 'oul yn dwym 'eddi. Daw 'i'n 'æf yn sytyn."

Dim llawar o sain Kerdiff ar y co 'ma, meddyliais. Ond mi oedd o'n siarad Cymraeg – o fath!

"Mae'n dda clywad rhywun yn y ddinas ma'n siarad Cymraeg," me'fi.

"Cwmræg wy yn wilia da pawb," me'fo – bron i mi atab mod i ar 'y ngwylia lawr ma hefyd yn reidio beic, ond mi ddalltish mewn pryd.

"Ap Gron ydw i," medda fi gan estyn fy llaw iddo.

"W i'n falch cwrddid â chi. Myfyr yw'n enw i; Myfyr Wyn," me'fo. "O'r North ych chi'n dod?"

"Ia wir, yma am 'chydig ddyddia, a 'di dŵad am sgowt i fama i gael ysbrydoliaeth ar gyfer erthygl dwi'n sgwennu i Fòs y Dinesydd," atebish i.

"Jawl ariod, sgrifenas i ambell lith a llythyr 'fyd at Mishdir Golycydd Tarian y Gwithwr pan on i'n Fachan Ifanc."

Ew! cyw-llenor, fatha fi, meddyliais.

"Dera 'ma – gitsha i yn a ffon ma a ewn ni am wâc bæch. Cretwch fi ne bido, un ddæ i ritag ôn i'n grotyn, on welwch i mono i'n mynd acha olwyneg rhac i mi gæl anap. So'i di bod sblynydda nôl. Gatwa yn dræd ar ddaiar yn a sgitsha 'oelon ma. On pidwch 'astu, wi'n diofadd o'r gwinecon." Camais oddi ar fy meic (cyn syrthio!) gan mai araf fyddai'r daith.

"Llecyn gwyrdd, braf 'di hwn," me'fi.

"Oti, ma na dicyn o flota 'yfryd yn tyfu fan 'yn a fan co ond ma gormod o giscod dan a côd mowr. Wi'n lico 'ala oria 'ma wrth munan yn yr 'æf yn watshan yr atar - y llwytod a dyrnod yr ira."

"Wel oes, mae na ddigon o adar to a drwdws yma - lot o doea yn y ddinas yn does?"

"Dewch ffor 'yn ibo beddi plant Mari a'r Pæb." A mi basion ni'r gofeb i Wyddelod y Newyn Mawr sy'n y rhan hon o'r fynwant. "Raid i ni fynd ar yr 'ewl – diflanws y llwybyr dros Nant Wedal wrth goti'r ffordd fowr." A draw at ran ucha'r fynwant yr aethom gan sgwrsio'n braf bob cam.

"Un o le'n union yda chi, 'lly? Ma gynnoch chi acan Gymraeg ddiddorol," medda fi'n swil.

"O Shir Fynwa. Ceso i yn macu ger Dredecar, ond wi'n byw yn Berdær. W i'n wilia'r Wenhwyseg, fachan. Ddechra'r ganrif ddwitha roedd 'anner miliwn yn wilia hi ac odd i'n dylanwatu ar 'anner miliwn arall yn y ran 'on o Gymru. Ond edwino wnæth y dafotiath – "dan effaith sŵn ebychiadau Seisnigol y to ieuainc fainweflog a godir yno". Gall cwiddyl a dirmyg ladd iaith: lladdon nhw'r Wenhwyseg. Mae a'n ddicon i ddanto dyn, yr 'oll Dic-Siôn-Dafyddion yn bratu iaith; 'eb asgwrn cefan i 'ito a chatw'r iaith yn fyw."

"Cawsom iaith i'w chadw …. a throesom iaith yr oesau yn iaith ein cywilydd ni," adroddais, gan deimlo'n rêl jarff o fudur-gofio llinellau Gerallt.

Ymlaen â ni heibio'r rhesi beddi nes iddo ddeud, "Fan 'yn ma'r bedd ych chi'n wilo amdano. Ddotas i a Shoni dusw o flota arno fa dy' Satwn dwitha," er i mi ddeud dim wrtho am wir ddiben fy nhaith.

"Wi am ych gatal chi neu fydd 'in wedi wech arno'i. Well i fi fwstro i gæl mynd sha thre cyn diwetydd." A gyda hynny diflannodd; a finna fanno fatha rhyw bererin coll ymysg y meirw.

Sbïais ar y beddi o nghwmpas. Oedd, mi oedd y garrag fedd â'r arysgrif Gymraeg arni yno'n union o fy mlaen - bedd "Y Dewraf o'n Hawduron" a fu farw yn 1949, union 70 mlynadd yn ôl.




Rôl i'r cloc-larwm ganu ac i William Jones ddweud "cadw dy blydi *chips*" wrth Leusa a'i heglu ar y trên i'r Sowth, ro'n i'n meddwl bod T. Rowland Hughes wedi i dallt hi. Ond tybed a oedd o mewn gwirionedd ond yn gwneud hwyl am ein penna? Felly, dotwch y bai arno fa, 'efyd.

Iaith Hwntws, iaith Gogs, iaith y Sowth, iaith y North, iaith Fo a iaith Fe, nene ene'r Rhôs, Rhydfeleneg a Glantafeg, medda chi. Na, toes na'm *'landsker'* – dim ffin rhyngom sy'n mynnu ein gwahanu, dim ond yn ein meddyliau a'n rhagfarnau a'n tynnu coes. Cymry Cymraeg a Chwmræg ydym oll – un iaith, â'i chyfoeth o amrywiaeth. Ond mae rhai ohonom yn fwy o fwngreliaid nag eraill, a rydan ni yn i dallt hi i'r dim. Neu ys gwetws rai, yn diall y gira, a gwpod yr aped.

**Olwyn ap Gron**

Cyflwynir yr erthygl hon er cof am ddau a fu farw'n ddiweddar, sef Meic Stephens a farddonai yn ei dafotiath fabwysiedig – 'eb ennill coron na chatair, a Mary Wiliam a agorodd fy llygaid, drwy ei llyfr *Iaith Blaenau'r Cymoedd,* i iaith rhai o fy nhwlwth nad oedd yn fainweflog.

# Pobol y Rhigwm

Tasg 22 i'r rhigymwyr oedd llunio pennill telyn neu driban gan gynnwys y llinell, 'Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd'. Daeth cannoedd o gynigion i law, a chafodd y beirdd hwyl arbennig arni y tro hwn. Cafodd mwy nag un eu hysbrydoli gan y Rali Annibyniaeth a gynhaliwyd yn y ddinas ym mis Mai.

Limrig a gafwyd gan y Lleidr, ond ni waeth am hynny, mae'r mydr a'r odl gyrch yn eu lle. Dyheu am ddeffroad ysbrydol y mae o bosib?

Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd
A'i baent sy'n glasu'r ffriddoedd,
Llesmeiriol sawr
Soniarus wawr,
Och! ond am awr ei nefoedd.

*Lleidr*

Dwyn i gof Eisteddfod Genedlaethol y mae'r Trefnydd, gan ddarogan sut bydd pawb yn cofio am Lanrwst ar ôl mis Awst. Er yr holl ddarogan gwae am lifogydd, mae'n sicr y bydd yr ŵyl yn llwyddiant:

Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd,
'Steddfotwyr yn eu miloedd.
Ac atgof pell oedd brad y si
Am faes dan li o ddyfroedd.

*Y Trefnydd*

Hoffais driban smala'r Meteorolegydd. Bwrw hen wragedd a ffyn yw'r ymadrodd wrth gwrs, ac un o'r hen wragedd sy'n gosod ei melltith – dyna chi wedi cael eich haf, glaw amdani!

Pawb yn eu hysgafn wisgoedd!
Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd.
Trwy'r glaw daeth gwaedd hen wraig a'i ffon.
Eb hon: 'Haf Cymru ydoedd'!

*Y Meteorolegydd*

Rhigymwyr tebyg yw'r Hedydd a'r Gwleidydd, yn defnyddio'r llinell osod fel llinell glo effeithiol i'w penillion. Efallai fod triban yr Hedydd ychydig yn fwy uniongyrchol na'r llall ac yn fwy trawiadol o'r herwydd.

<u>Gorymdaith Annibyniaeth i Gymru, 11 Mai 2019</u>

'Rôl gaeaf caeth canrifoedd
A gwanwyn gwamal werthoedd
Bu bloedd gorymdaith ger y Taf:
Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd.

*Y Gwleidydd*

'Rôl hirlwm gwan ymgyrchoedd
Dihuno wnaeth y bobloedd
A gorymdeithio'n fintai braf –
Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd.

*Yr Hedydd*

Triban syml, telynegol ei naws yw eiddo Blodwen, sydd eto'n defnyddio'r llinell osod fel llinell glo. Mae'n driban swynol, yn nhraddodiad yr hen benillion.

Y gaeaf llwm a'i wyntoedd
Fu'n rhynnu'r tir a'r moroedd,
Ond nawr bywhau yn llwyr a gaf –
Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd.

*Blodwen*

Y gorau i mi, fodd bynnag, yw eiddo Gwyliedydd. Triban sy'n cyfeirio'n gynnil at y dirmyg y mae'r digartref yn ei wynebu ar ein strydoedd. Cyferbynnir y tywydd a'r palmant oer lle bydd cynifer yn cysgu'r nos, a phoer y gwawdwyr fel glaw drostynt. Tro annisgwyl a thrawiadol iawn.

Fe ddaeth yr haf i'r strydoedd
A'r haul yn falm blinderoedd.
Ond pan ddaw'r nos, ar balmant oer,
Bydd poer yn law i gannoedd

*Gwyliedydd*

Llongyfarchiadau i'r Gwyliedydd ac i bawb a fu'n cystadlu.

**Enillydd tasg rhif 21 yw**
**Dr Phil Ellis, Penylan**

Y dasg ar gyfer rhifyn mis Mehefin (tasg 23) yw llunio cwpled caeth neu englyn, sy'n cynnwys y gair "Tafwyl." Cynigion i law db.james@ntlworld.com erbyn 18 Mehefin 2019.

**Ôl–nodyn**

Daeth y limrig hwn (tasg 21) i law yn rhy hwyr i'r gystadleuaeth, ond mae'r beirniad yn dweud ei fod yn "werth ei gyhoeddi". Diolch i 'Llipa' am gymryd rhan.

Peth anodd i mi yw heneiddio.
Dyw pethe ddim fel 'sen nhw'n gweithio;
Mae 'nghefen i'n dost
Rwy'n fyddar fel post
A'r tablets yn gost fedra i'm fforddio!

*Llipa*

## Gair gan Ian Cox o'r Eglwys Newydd: tîm pêl-droed Dinas Caerdydd

Yn y diwedd, roedd y tymor yn drist i dîm pêl-droed Dinas Caerdydd. Aethon nhw 'nôl lawr i'r Bencampwriaeth ond ar hyd y ffordd, chwaraeon nhw'n dda. Enillodd Caerdydd ddeg gêm, chwech yn Stadiwm Dinas Caerdydd a phedair i ffwrdd yn erbyn Caerlŷr, Southampton, Brighton a'r gêm olaf, Manceinion Unedig. Hefyd, roedden nhw'n anlwcus i golli rhai gemau. Dw i ddim yn rhegi fel arfer felly peidiwch â gofyn i fi am y dyfarnwyr!

Gwelais i lawer o chwaraewyr enwog fel Eden Hazard o Chelsea, Mo Salah o Lerpwl, Paul Pogba o Fanceinion Unedig a Kevin De Bruyne a Serge Aguero o Ddinas Manceinion. Dinas Manceinion oedd y tîm gorau i chwarae yng Nghaerdydd.

Ym mis Chwefror, aeth Eirian a Gwilym Dafydd i weld y gêm yn erbyn Everton. Ar ôl y gêm, roedd Eirian yn hapus iawn achos Everton yw hoff dîm Eirian ac enillodd Everton y gêm o dair gôl i ddim.



Ian Cox a dau gefnogwr brwd

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Bob tro dwi'n dechrau ei chanu hi, dw i'n teimlo'n emosiynol iawn."*

## Gwilym Dafydd



## Gair gan Matt Spry Dysgwr y Flwyddyn

Dyn o Orllewin Affrica a ddaeth i Gymru fel ceisiwr lloches yw Joseff. Ar ôl dim ond blwyddyn a dau fis o ddysgu Cymraeg, penderfynodd e gystadlu yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn eleni.

Cynhaliwyd rownd cyn-derfynol y gystadleuaeth yn Oriel Mostyn, Llandudno, ddydd Sadwrn 11 Mai ac roedd yn bleser gen i fynd gyda fe. Cawson ni benwythnos ardderchog yn ymweld â llawer o lefydd newydd, yn cwrdd â hen ffrindiau a llawer o bobl newydd ac wrth gwrs yn siarad llawer o Gymraeg!


Roedd rhaglen o weithgareddau ar gyfer cystadleuwyr wedi'i threfnu yn Siop Lewis, siop llyfrau Cymraeg yng nghanol y dre. Yma roedd cyfle i Joseff gwrdd â phobl eraill oedd yn cystadlu a gaethon ni lot o hwyl yno gyda phobl cyfeillgar a chroesawgar iawn. Aethon ni i Oriel Mostyn ar gyfer cyfweliad Joseff am hanner dydd ac wedyn crwydron ni o gwmpas Llandudno tan 4.30 yn y prynhawn pan ddarganfyddon ni pwy oedd y pedwar fydd yn mynd drwy i'r ffeinal. Yn anffodus doedd Joseff ddim yn llwyddiannus ond dwedodd e wrtho i iddo fe fwynhau'r profiad a'r cyfle i siarad gymaint o Gymraeg, cwrdd â phobl a dod i nabod Llandudno.

Hoffwn i ddiolch yn arbennig i Tim a Siân. Fe roddodd Tim lifft inni o Gaerdydd i Landysul ddydd Gwener, ac arhoson ni dros nos. Ddydd Sadwrn, fe roddodd Tim lifft inni o Landysul i Landudno ac yn ôl, ac arhoson ni nos Sadwrn hefyd.

Ddydd Sul, ar ôl brecwast, aeth Joseff a fi gyda Tim a Siân a'u plant i Langrannog ac wedyn i Gei Newydd. Yn y prynhawn aethon i eglwys Gymraeg 'Ffynnon' yn Llandysul. Roedd criw o bobl sy'n dysgu drwy ddefnyddio *Say Something in Welsh* yno cyn iddyn nhw ddechrau eu 'bootcamp' Cymraeg yn Nhresaith ac roedd yn hyfryd cael sgwrs gyda nhw. Gaethon ni lifft i Gaerfyrddin yn hwyr yn y prynhawn a dalion ni'r trên yn ôl i Gaerdydd. Cyrhaeddon ni Gaerdydd tua 8.00 yn y nos a dw i'n cofio dweud wrth Joseff 'O na, bydd rhaid inni siarad Saesneg nawr!'

O'n ni i gyd yn eithaf siomedig na chyrhaeddodd Joseff y ffeinal ond gaethon ni amser ardderchog a hoffwn ni longyfarch y pedwar sydd wedi cyrraedd y ffeinal. Roedd yn hyfryd i fi weld hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mynd i lefydd newydd hefyd.

## Gair gan Joseff



**Joseff, Crannog a Matt**

Mae fel dych chi wedi cwrdd â rhywun a dydych chi byth yn gallu ei gadael e neu hi. Er dydw i ddim yn rhugl mewn Cymraeg eto, dw i'n siarad hi bron bob dydd. A ble? Yn nghanol Caerdydd. Ond pan des i i'r DU i wneud cais am loches ym mis Hydref 2017, don i ddim yn gwybod llawer am Gymru ar wahân i'r faner hardd a Gareth Bale. Nawr dw i'n teimlo'n integredig iawn yng Nghymru yn gyffredinol ac yn y gymuned Gymraeg yn arbennig. Diolch i'r Iaith, dw i wedi gwneud llawr o ffrindiau newydd, yn enwedig siaradwyr Cymraeg a dwi wedi ffeindio swydd. A pha swydd? Er ei bod yn rhan amser, mae'n swydd rwy'n ei hoffi yn fawr iawn: helpu gyda Chymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Dechreuodd popeth pan ges i fy symud o Croydon i Gaerdydd ddiwedd Chwefror y llynedd. Un o'r pethau cyntaf sylweddolais i wrth ddarganfod Cymru oedd bod ganddi iaith ei hun. Ac yn fy marn i, mae hi'n normal pan dych chi'n byw mewn gwlad i siarad iaith yr wlad honno. Ychydig ddyddiau ar ôl symud yma, es i Oasis i holi am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Yna, cwrddais i â Matt Spry, (Dysgwyr Y Flwyddyn 2018). Roedd e'n dechrau cwrs blasu Cymraeg. Dechreuais i'r cwrs gyda Matt wythnos yn ddiweddarach ac wedyn dechreuais i'r cwrs Mynediad gyda fe. Tri mis yn ddiweddarach, ges i gyfle i wneud y cwrs haf (Lefelau Mynediad a Sylfaen) ac yn awr dw i'n gwneud lefel Canolradd. Ar wahân i'r dosbarthiadau, ymwelais i â mannau pwysig fel y Senedd, Sain Ffagan a Castell Caerdydd. Yn ystod yr un cyfnod, cymrais i ran mewn sesiynau anffurfiol (cyfarfodydd Cymraeg, offerennau eglwysi Cymraeg) a digwyddiadau yn hyrwyddo'r Gymraeg megis Tafwyl ac Eisteddfod, ble cymrais i ran mewn panel ym mhabell Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Yn ddiweddar, ron i'n rhan o'r gystadleuaeth Dysgwyr Y Flwyddyn yng Ngogledd Cymru. Ac er fy mod i ddim wedi ennill, ges i gyfle i ymarfer siarad ac ymweld â mannau bendigedig sef Llandudno, Llangrannog, Cei Newydd ac Aberystwyth. Un peth olaf, nawr, dw i'n trio canu'r Anthem Genedlaethol. Ond yn trio achos - roeddwn i'n ei chadw hi fel cyfrinach - bob tro dwi'n dechrau ei chanu hi, dw i'n teimlo yn emosiynol iawn.

# Addysg Gymraeg – Pryder am Ddiffyg Twf

Er bod 723 o ddisgyblion wedi gosod addysg Gymraeg fel eu dewis cyntaf ym mis Ionawr, 691 yw nifer y plant sy wedi cael lle fis Ebrill yn un o'r 17 ysgol Gymraeg. Gyda 46 wedi'u gwrthod rhwng y chwech ysgol orlawn, 737 yw nifer y rhai fu'n ceisio addysg Gymraeg.

Roedd rhai o'r ysgolion gorlawn eleni yr un rhai ag arfer - Nant Caerau (24), Mynydd Bychan (4), Pencae (6), Y Wern (1) a'r Berllan Deg (7) - ond roedd 15 lle gwag ym Melin Gruffydd a 18 yng Nglan Ceubal, dwy ysgol oedd yn orlawn yn 2018. Gwaelod-y-garth (4) yw'r ysgol orlawn arall eleni.

Ysgolion eraill sy wedi denu llai o geisiadau nag arfer yw Bro Eirwg (46 cais i 60 lle), a Phwll Coch (40 i 60). Ysgolion sy'n agos at fod yn llawn yw Creigiau, Coed-y-gof, Pen y Pil a Threganna (yr olaf â llawer llai o geisiadau na'r llynedd). Mae'r ddwy ysgol ddwy-ffrwd newydd Glan Morfa a Hamadryad mewn adeiladau newydd ac yn parhau i dyfu gyda 36 a 37. Mae Penygroes yn aros yn hanner llawn gydag 16.

Mae llawer o apeliadau ar gyfer lle yn yr ysgolion uwchradd yn ogystal. Mae tua 28 yn gwasgu am le yng Nglantaf a 12 ohonynt yn byw yn nalgylch yr ysgol. Mae si bod chwe phlentyn wedi llwyddo cael lle ym Mhlasmawr o'r 9 naw a wrthodwyd yn wreiddiol. Mae'n bosibl y bydd y sir yn codi'r nifer i gael eu derbyn i Blasmawr i 210 erbyn 2020. Mae angen gwneud yr un peth ar gyfer Glantaf i bontio'r cyfnod nes y daw y bedwaredd ysgol uwchradd Gymraeg.

*Michael Jones*





rogersjonesco
Est 1992
AUCTIONEERS AND VALUERS
CWMNI ARWERTHWYR A PHRISWYR

17 Ystad Masnachu Llandochau,
Heol Penarth, Caerdydd, CF11 8RR /
33 Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 7RU
Ffon: 029 20 708 125 & 01492 532 176



# Bwytai Merch y Ddinas

*“Ystyriwch wledda mewn bwytai sy'n cynnig blasau'r cyfandir, ym maestrefi a chanol Caerdydd? ”*

**Lowri Haf Cooke**



## Blas o’r Cyfandir

Gyda gwyliau’r haf ar y gorwel, gwn am nifer sydd am hel eu pac. Bydd priffyrdd y wlad yn llawn carafanau a theithiau beiciau, a thraethau Cymru yn apelio’n fawr pan ddaw’r haul. Ac ers cadarnhad mis Mai, bydd Bro Conwy dan ei sang o eisteddfodwyr o Gaerdydd a’r Fro, bydd cymdogion dinesig yn bownd o gyfarfod â’i gilydd dros beint ar gyrion Llanrwst.

Ond bydd nifer yn awyddus am ddihangfa i’r cyfandir, pythefnos o ‘fly and flop’. Yn bendant, bydd llawer am gefnu ar Brexit, am chwistrelliad o ddiwylliant Ewrop. I rai, yr apêl yw peidio â choginio am sbel, a mwynhau blasau gwahanol dros dro. Brechdanau Llychlynaidd, bwyd y môr o Ffrainc a Sbaen, neu mythos a souvlaki gwlad Groeg. A beth am winoedd a chawsiau a sawsiau llawn sbeis, gazpacho, gelato a grappa? Deffroad i'r synhwyrau, a llwybrau newydd i’r ymennydd, bydd yn sicr o adael argraff ar y cof.

Wel beth am ddathlu’r blasau hynny mewn dinas Ewropeaidd sydd reit ar stepen ein drws? Ystyriwch wledda mewn bwytai sy'n cynnig blasau'r cyfandir, ym maestrefi a chanol Caerdydd. Rhyw fath o wibdaith o wyliau, heb giwiau’r maes awyr, neu yrrwyr honco bost. Dechreuwch â blas o Napoli yn Ffwrnes y farchnad ganolog, neu basta ffres o arfordir Amalfi yn Il Giardini di Sorrento, Heol y Ddinas. Cofiwch hefyd am Cichetti Radyr, Elgano ym Mhontcanna, Il Fragolino a Porro yn Llandaf. A mwynhewch lasied o ‘Spritz’ ar balmant prysur yn Nhreganna o flaen bwyty Calabrisella.











Yng nghanol y Rhath mae souvlike o wlad Groeg, yn yr Hellenic Eatery ar Heol y Crwys. Ac os am flasau o Ffrainc, beth am Madame Fromage, neu rhowch dro ar Café du Chat Noir (Penylan) neu bistro The Pot (Y Waun Ddyfal).


Lawr y Bae, a Waunadda - a gyferbyn â'r Castell - mae canghennau o gaffi Portiwgeaidd Nata. Cewch bestris melys yno, ond os am swper mwy sawrus, mae Tŷ Madeira ar Heol Fair. A beth am Sbaen a'i rhanbarthau? Bar 44 yw teyrn y tapas, ond os am Pintxos a gin Basgaidd, trowch at far hynod fywiog Curado. Cewch stecen Galisiaidd yn Asador 44, a gwledd Gatalwnaidd yn La Cuina, Treganna.


Ffansïo Mitteleuropa? Ceir caffi Wally's o Awstria, neu far Pwylaidd La Belle Epoque yn Waunadda. A sôn am wlad Pwyl, rhaid canmol Sunflower and i, caffi hyfryd ar gornel Sgwâr Mount Stuart. Ac os am gyrchfan Scandi-chic, mae Brød ym Mhontcanna yn cynnig hafan i gystadlu â Copenhagen.

Dim ond blas bach yw’r rhain o’r holl flasau ‘Ewropeaidd’ sy’n ychwanegu at ddiwylliant Caerdydd. Ac os nad oes traeth neu ‘biazza’ yn olygfa dros swper, ceir y Bae, a bwrlwm Mill Lane. Ac mae un fantais fawr i’r holl fwytai hyn, sy’n amhosib cystadlu â hi; y cyfleustra i’ch cartref, a phaned dda o de, a chyfforddusrwydd eich gwely eich hun!

*Bwytai Cymru* a *Canllaw Bach Caerdydd* gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer), £9.99 yr un.

## Rhif: 192



### Ar Draws

1. Gallai dyn rywfodd fyw yma (8)
5. Mae'n gaffaeliad i Aelod Seneddol Edward (4)
9. Mae piod Nico ar yn ail ar y bryncyn (4)
10. Yn unedig fe droesant i'r ganrif olaf (8)
11. Cywasgu'r ymryson i hunan ymddiddan (5)
12. Aelod o'r cyngor mor hynafol a metel (7)
13. 'Gwaith a gorffwys
    ----- ----- ----- yn un' (JGMH) (5,4,4)
18. Arwyddo a'r pen o achos y llamu (8)
19. Nifer mewn cariad ar yn ail wrth ddilyn Hywel (4)
20. Ergyd i Dai wrth gefnu ar y tarw gwyllt (7)
21. ' Mae'r gelyn yn gry'- ond cryfach yw Duw
    ----- ----- yn hy, tŵr cadarn im yw' (HCW) (2,3)
22. Enw merch yr ynys (4)
23. Mul di-gynffon Daniel yn cyrraedd mewn cyflwr tawel (8)

### I Lawr

2. '----- -----'r mynyddau mawr,
   Rhuo trostynt mae y gwynt' (JCH) (4,3)
3. Trin er gwell neu er gwaeth (7)
4. Hau y gair da oedd yn peri credoau cadarn (13)
6. 'Craig ----- mewn tymhestloedd,
   Craig a ddeil yng ngrym y lli' (SJG) (7)
7. Dyfarniad ar y dref wyllt yn nwylo'r diwinydd (7)
8. Y corn mwg yn codi o'r pwffian misol (6)
13. Ai act i bâr yw'r lleoedd bragu (7)
14. Delw Dafydd yn y ddinas (7)
15. Ceisio rhywbeth i'w olchi efallai (6)
16. 'A haul ----- drwy'r prynhawn
    Yn bwrw'i aur i'th gwpan llawn' (JDH) (7)
17. Palu tunelli cyn dim o'u gosod ar wahân (7)

**Enillydd Croesair Rhif 190**
**Rhys Dafydd Williams, Y Mynydd Bychan**

**Atebion Croesair Rhif 190**

**Ar Draws:** 7. Labro 8. Eliffant 9. Neithior 10. Trais 12. Datguddiwyd 15. Gwarchodaeth 18. Diogi 19. Lladrata 21. Trawiad 22. Dotio

**I Lawr:** 1. Glyn cysgod 2. Ebrill 3. Holi 4. Cerrig 5. Eisteddle 6. Safadwy 11. Sydyn gawod 13. Archwilio 14. Darogan 16. Dilladu 17. Danto 20. Dadl

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2019
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

---

Am y tro cyntaf erioed, bydd Tafwyl yn agor ei drysau am noson ychwanegol eleni i gyflwyno noson o gerddoriaeth, celfyddydau a bwyd stryd yng Nghastell Caerdydd nos Wener 21 Mehefin.

Rhwng 17:30 a 22:00, bydd llu o artistiaid Cymraeg yn perfformio ar ddwy lwyfan - Gwenno, Lleuwen a'r Band, Adwaith, Serol Serol, Y Niwl, Zabriniski, Bitw ac Ani Glass.

Ar 22 a 23 Mehefin bydd Tafwyl ar agor fel arfer, ond am awr ychwanegol gan ymestyn yr oriau agor i 11:00 – 22:00. Bydd 50 o artistiaid yn chwarae ar draws pedair llwyfan gan gynnwys Band Pres Llareggub, Caryl Parry Jones, Candelas, Yr Eira, Gwilym, Mellt, Chroma, Mei Gwynedd, HMS Morris, Alffa, Glain Rhys, Siddi ac I Fight Lions.

Yn ogystal â cherddoriaeth wych, bydd digonedd o stondinau bwyd a diod unigryw ar gael, gan gynnwys danteithion gan Ffwrnes, The Bearded Taco, Meat and Greek a Bar Milgi. Bydd yr ŵyl hefyd yn parhau i ddod â'r enwau mwyaf ym myd y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon Cymreig i Gaerdydd. Bydd cynnwys llenyddol, celfyddydol, chwaraeon a chomedi i'w mwynhau ac ardal arbennig i blant.

Bydd mynediad i'r ŵyl am ddim eto, gyda chroeso mawr i bawb – siaradwr Cymraeg neu beidio. Mae'n ddigwyddiad gwych i ddysgwyr a phobl sy'n awyddus i gael eu blas cyntaf o'r iaith a diwylliant Cymru.

Fel bob blwyddyn, bydd gŵyl ffrinj yn cael ei gynnal ar draws y brifddinas fel rhan o Tafwyl, gyda digwyddiadau amrywiol yn cael eu cynnal mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd, caffis a bariau rhwng 15 a 23 o Fehefin.

Am y newyddion diweddaraf am yr ŵyl dilynwch @tafwyl a #tafwyl19 a chadwch lygaid ar www.tafwyl.cymru

## Y DIGWYDDIADUR

### Mehefin

**Sadwrn, 8 Mehefin**

Bore coffi rhwng 10.30yb a 12.00 ar gyfer rhai sydd am ymarfer eu Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays, CF24 4BX. 'Bore Siarad.' Croeso i ddysgwyr ac i siaradwyr rhugl. Yr un amser bydd dosbarth Cymraeg ar gyfer dechreuwyr dan arweiniad Amanda Griffiths. Mynediad am ddim: croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 11 Mehefin**

Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Bydd y Parch Ddr R Alun Evans yn ein diddanu gyda throeon trwstan, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed), am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 12 Mehefin**

Adran y Chwiorydd Caerdydd o Gymdeithas y Beibl. Gwasanaeth, ffair a noson goffi yn Salem, Treganna, am 7.00yh. Anerchiad byr gan y Parch Dafydd Andrew Jones. Stondinau planhigion, cynnyrch cartref, tuniau a photeli, a nwyddau melyn. Tocynnau: £1.

**Iau, 13 Mehefin**

Dych chi'n hoffi cerdded? Wel, dewch gyda ni i gerdded yn yr Ais. Byddwn yn sôn am hanes y gornel fach honno yn ein brifddinas. Am 10:00 cyfarfod y tu allan i'r Hen Lyfrgell (ochr y siop). Am 10:45 yng nghaffi Eglwys Sant Ioan gerllaw. Criw sy'n dysgu Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n trefnu. Does dim tâl ond gwahoddir cyfraniadau at achos da.

**Sadwrn, 15 Mehefin**

Noson Jin Tafwyl rhwng 7.00yh a 23:00yh. Cegin Bodlon, 190-194 Heol yr Eglwys Newydd. Cerddoriaeth byw gan Grug (triawd Heather Jones) a chyfle i flasu pum jin gwahanol dan arweiniad David ac Anthony o Jin Talog. Tocynnau: £15.

**Sadwrn, 15 Mehefin**

Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30yb a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned a sgwrs.

**Sadwrn, 15 Mehefin**

Gŵyl Fach y Fro ar Ynys y Barri rhwng 11.00yb a 7.00yh. Digwyddiad am ddim! Manylion https:/menterbromorgannwg.org/cy

**Llun, 17 Mehefin**

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yng Nghapel Bethel, Maesyderi, am 7.30yh.

**Gwener, 21 Mehefin**

Noson arbennig yng Nghastell Caerdydd wedi'i threfnu gan Dafwyl ar y cyd â PYST. Bydd mynediad *am ddim* i'r digwyddiad, sy'n cael ei gynnal rhwng 5.30yh a 10.00yh. Bydd y perfformwyr yn cynnwys Gwenno, Lleuwen, Adwaith, Serol, a DJ Huw Stephens. Yn rhan o'r noson bydd yr artist Swci Delic hefyd yn curadu Llwyfan y Sgubor, a bydd Bragdy'r Beirdd yn cyflwyno Georgia Ruth, Iwan Huws a Beirdd y Bragdy. Manylion pellach: http://tafwyl.org/

**Sadwrn, 22 Mehefin**

Gorymdaith Dathlu 70 Mlynedd Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Ymgynnull ger Neuadd y Ddinas rhwng 9.00 a 10.00yb. Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd, yn dechrau'r Orymdaith o Neuadd y Ddinas am 10.00yb. Cerdded drwy strydoedd di-draffig a thanffyrdd Caerdydd i'r Ais ac yn ôl i gyrraedd Porth y Gogledd, Castell Caerdydd am 11.00yb. Croesawu'r Orymdaith ym Mhabell yr Ysgolion yn Nhafwyl gan Eluned Morgan AC, Gweinidog dros y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, am 11.30yb.

**Sadwrn, 22 Mehefin – Sul, 23 Mehefin**

Tafwyl yng Nghastell Caerdydd. Manylion pellach: http://tafwyl.org/

### Gorffennaf

**Sadwrn, 20 Gorffennaf**

Coffi a chlonc i ddysgwyr yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3DD, rhwng 10.30yb a 12.00. Mae croeso i chi ddod am baned a sgwrs.

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

## Gofyn i ddarllenwyr y Dinesydd hel atgofion

Mae Gwasg Y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r murluniau *Cofiwch Dryweryn*, i'w chyhoeddi yn Hydref 2019. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o'r murluniau newydd mewn ymateb i'r trosedd casineb yn erbyn y murlun eiconig gwreiddiol.

Meddai golygydd y gyfrol Mari Emlyn: "Cyfyngir y dewis o luniau i furluniau yn bennaf. Ni fydd yn bosib cynnwys pob murlun a llun yn y gyfrol, ond rydym yn chwilio am y rhai mwya trawiadol a diddorol! Bwriedir cynnwys dyfyniadau gan rai o'r bobl allweddol fu'n creu'r murluniau newydd a rhoi sylw i'r twf diweddar yn yr ymwybyddiaeth Gymreig ac annibyniaeth."

Cysylltwch â'r golygydd Mari Emlyn ar mari.emlyn@btinternet.com i rannu eich lluniau a'ch straeon. Dyddiad cau derbyn deunydd yw 24 Mehefin 2019.

## Cyfeillion Dementia

Mae Cyfaill Dementia yn dysgu mwy am sut brofiad yw byw gyda dementia ac yna'n trosi'r ddealltwriaeth yn weithredoedd. Gall pawb o bob oedran ddod yn Gyfaill Dementia, drwy fynd i Sesiwn Wybodaeth yn eich cymuned, neu drwy wylio fideo ar-lein.

Un cwmni sy'n cymryd rhan yw Bon Marche, yng nghanolfan siopa Dewi Sant, a chyn-ddisgybl Ysgol Plasmawr, Hannah Martinson, sy wedi sbarduno'r fenter hon. Mae sawl aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant. Gall pawb sôn am Gyfeillion Dementia, ymweld â rhywun sy'n byw â dementia neu annog cydweithwyr i ymuno â Chyfeillion Dementia. Mae Cymdeithas Alzheimer's yn gweithio gyda phob math o sefydliadau i gyflwyno Cyfeillion Dementia i'w gweithlu.

Mae mwy o wybodaeth am Gyfeillion Dementia ar gael ar y wefan https://www.dementiafriends.org.uk/.

# Gorymdaith i ddathlu addysg Gymraeg





Mae Gorymdaith Ddathlu 70 mlynedd o Addysg Caerdydd yn agosáu. Ar fore Sadwrn, 22 Mehefin, rhwng y Llysoedd Barn a Neuadd y Ddinas, bydd cefnogaeth gref o bob un o'r 20 Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd, ynghyd â nifer o'u rhieni, llywodraethwyr a chyn-ddisgyblion, yn ymgasglu rhwng 9 a 10 yb, er mwyn ymdeithio drwy strydoedd Caerdydd i Tafwyl. Os ydych chi'n gyn-ddisgybl neu'n gyn-riant, bydd croeso i chi gyd-gerdded gyda'ch ysgol chi. Y nod yw dangos a dathlu'r twf a fu mewn addysg Gymraeg dros y blynyddoedd ers 1949, ac atgoffa pawb bod hawl i addysg drwy'r Gymraeg ar gael i bob plentyn yn y ddinas, beth bynnag fo iaith y teulu. Bydd cynrychiolaeth o RhAG a'r Mudiad Meithrin yno hefyd.

Ond beth am ddisgyblion a rhieni, athrawon a llywodraethwyr yr ysgol fu'n eu rhagflaenu? Er mwyn llwyddiant yr orymdaith, mae angen cynifer ag y gall o gyn-ddisgyblion Ysgol Bryntaf, a'i rhagflaenydd, Ysgol Gymraeg Caerdydd, i gyd-gerdded gyda disgyblion yr ysgolion presennol. Hon oedd y dderwen a dyfodd o fesen dau ddosbarth yn Ysgol Ninian Park, i greu yr ysgol gynradd fwyaf yn Ewrop ar y pryd, yn yr adeilad ar y Rhodfa/Parade. Hwy fydd yn y garfan ar flaen yr orymdaith sy'n gadael am 10 yb ar 22 Mehefin.

Ydych chi yn y lluniau uchod, neu un o'r lluniau eraill o Fryntaf a ymddangosodd yn y *Dinesydd* dros y deufis diwethaf? Fyddwch chi yn ein plith yn gorymdeithio? A allwch chi atgoffa y gweddill ohonom, gyn-ddisgyblion Bryntaf, sy'n byw ymhell o Gaerdydd, ein bod yn deisyfu iddynt hwythau ddod adre i gerdded hefyd? Felly dowch 'mlaen! Cerddwch gyda ni a lledwch y gair!